**Eitem ar yr agenda: 3**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau, Tachwedd 15fed 2007 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y bore.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W E Jones (Eilydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); R Fairhead (Rheolwr Cynnal Gweithredol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); S Roberts (Pennaeth Rheoli Cyfleusterau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| **Y Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau na chyflwynwyd unrhyw eitemau iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

Fe atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod Seremoni Gwobrwyo Gwasanaeth Hir i'w chynnal y noson honno ac y byddai Gwasanaeth Carolau Blynyddol y Gwasanaethau Brys yn cael ei gynnal yng Nghadeirlan Llanelwy nos Lun, 17eg Rhagfyr am 7:30 yr hwyr.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol.

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Fedi 24ain 2007.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

## 4) Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Fe hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau, oherwydd y wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad, oedd i'w gyflwyno fel yr eitem nesaf o fusnes ar yr agenda, yr argymhellid fod y drafodaeth yn digwydd heb bresenoldeb y cyhoedd na'r Wasg. Gyda chaniatâd yr aelodau, fe newidiodd y Cadeirydd drefn y busnes er mwyn gallu trin eitem fusnes 5 ar ddechrau busnes Rhan II.

## 5) Cynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2008/09

Gweler eitem fusnes 13.

## 6) Cymeradwyo Cynllun Gwella 2007/08

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad a Chynllun Gwella diwygiedig 2007/08 yr Awdurdod (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Atgoffwyd aelodau fod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref, wedi penderfynu gohirio cymeradwyo'r Cynllun Gwella er mwyn rhoi amser digonol i aelodau ddarllen y ddogfen a chyflwyno eu sylwadau ac arsylwadau mewn pryd ar gyfer y cyfarfod presennol. Yr un adeg â gohirio cymeradwyo'r cynllun, roedd yr Awdurdod wedi dirprwyo ei bwerau mewn cysylltiad â'i gymeradwyaeth i'r Panel Gweithredol. Er na dderbyniwyd sylwadau neu arsylwadau gan aelodau, roedd swyddogion wedi newid y Cynllun drafft i adlewyrchu penderfyniad yr Awdurdod mewn cysylltiad â'r Cynllun Lleihau Risg Drafft 2008/09 yn ei gyfarfod diwethaf. Ychwanegwyd atodiad ychwanegol oedd yn dangos y ffigyrau adroddwyd yn Adran 2 fel Dangosyddion Perfformiad

Gwerth Gorau wedi eu cyfrifo. Gwnaed mân newidiadau cyflwyniadol hefyd. Cynghorwyd yr aelodau fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cychwyn archwilio'r Cynllun yn ddiweddar. Hyd yn hyn, dim ond y ffigyrau yn y Cynllun oedd wedi cael eu harchwilio. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd W E Jones, fe gadarnhaodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael), fod yr Awdurdod Tân ac Achub, yn yr un modd ag awdurdodau lleol, yn agored i ffigyrau poblogaeth sy'n codi ac yn gostwng, felly, y ffigyrau poblogaeth a ddefnyddiwyd yn y Cynllun oedd yr amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn cydnabyddedig.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo mabwysiadu'r Cynllun Gwella drafft 2007/08 ar gyfer ei gyhoeddi.***

**7) Ymgynghoriad ar y Fframwaith Mesur Perfformiad a Dangosyddion Perfformiad**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn ymwneud ag ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Fframwaith Mesur Perfformiad a Dangosyddion Perfformiad arfaethedig ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghori ynghlwm i'r adroddiad er gwybodaeth i'r aelodau, ynghyd ag ymateb drafft ar gyfer eu hystyriaeth. Manylodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ar gynnwys yr ymateb drafft arfaethedig ac amlygodd faterion oedd yn achosi pryder i'r Awdurdod.

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r ymateb drafft yn Atodiad 1 ac awdurdodi'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) i gyflwyno'r ymateb ar ran yr Awdurdod i Gangen y Gwasanaethau Tân ac Achub cyn y dyddiad cau ar yr 20fed Rhagfyr 2007.***

**8) Adolygiad Pensiynau**

Yn absenoldeb y Trysorydd, fe gyflwynodd Cyfrifydd yr Awdurdod ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn manylu'r sefyllfa bresennol mewn cysylltiad ag ariannu trefniadau'r Cynllun Pensiwn Newydd ar gyfer Diffoddwyr Tân. Fe eglurodd fod yr adroddiad hefyd yn ystyried effaith y cynllun pensiwn newydd ar Ddarpariaeth Pensiwn yr Awdurdod. Yn ychwanegol, roedd yn manylu ffigyrau amcangyfrif alldro y Cyfrif Pensiwn ar gyfer 2007/08 ac amcangyfrif ffigwr Grant Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yr adroddiad yn egluro'r cysoniad o wahaniaethau Grant Ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn rhoi dadansoddiad o'r costau pensiwn yn erbyn y cyfrif refeniw. Roedd aelodau hynny oedd yn bresennol yn y cyfarfod Anffurfiol o'r Awdurdod gynhaliwyd ar 5ed Tachwedd wedi cael cyflwyniad cynhwysfawr ar y cynllun pensiwn newydd a'i effaith ar gyllideb yr Awdurdod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J A MacLennan ar ba unai os oedd yr Awdurdod yn hyderus o adennill yr incwm ychwanegol i Gyfrif y Gronfa Bensiwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fe gynghorodd y Prif Swyddog

Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei bod hi'n anodd proffwydo'r canlyniadau mor gynnar a hyn yn ystod y trafodaethau. Aeth ymlaen i egluro y byddai'n well ganddi weld y tri awdurdod tân ac achub Cymreig yn cydweithio yn eu hymdrech i adennill yr incwm ychwanegol a wariwyd gan bob awdurdod ar ffioedd ychwanegol i'w Cyfrifon Cronfa Pensiwn priodol, drwy gyflwyno cais ar y cyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn arall oedd yn gysylltiedig â'r £1m oedd yr Awdurdod wedi ad-dalu o'i Ddarpariaeth Pensiwn i'r awdurdodau cyfansoddol, fe gadarnhaodd y Cyfrifydd fod yr arian yma wedi ei glustnodi i liniaru y pwysau cyllidebol a ragwelwyd oherwydd y nifer uchel o Daliadau Cymudiad fyddai'n daladwy dros y blynyddoedd nesaf oherwydd y nifer o bersonél gweithredol fyddai'n gymwys i ymddeol. Gan nad oedd yr Awdurdod yn gyfrifol am ariannu Taliadau Cymudiad mwyach, ni allai gadw'r arian yma ac felly, roedd wedi cymryd y cwrs cywir o weithrediad, sef ei ddychwelyd i'r cynghorau cyfansoddol.

***<u>Penderfynwyd:</u>-***

- ***i. fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru nawr yn trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn iddo ad-dalu rhywfaint o'r £426k o incwm ychwanegol i Gyfrif y Gronfa Bensiwn sydd wedi dod o daliadau ychwanegol i gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;***
- ***ii. cytuno i gwrdd â chost y taliadau pensiwn ychwanegol yn 2007/08 o'r Ddarpariaeth Bensiwn (a amcangyfrifir ar hyn o bryd i fod yn £290k); a***
- ***iii. chadw balans y Ddarpariaeth Bensiwn i liniaru risg taliadau Salwch yn y dyfodol.***

**9) Monitro Perfformiad**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad a'r adroddiad monitro arferol oedd yn manylu perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad gosodedig ar gyfer y cyfnod rhwng 1af Ebrill hyd 30ain Medi 2007 (a ddosbarthwyd o flaen llaw).

Gyda balchder, dywedwyd wrth yr aelodau, yn gyffredinol, hyd yn hyn eleni, oni bai am danau damweiniol mewn cartrefi, fod y nifer o brif danau a thanau eilaidd wedi gostwng. Roedd swyddogion ar hyn o bryd yn ymchwilio i weld os oedd cydberthynas rhwng y cynnydd yn y nifer o danau damweiniol mewn cartrefi a phroffil diogelwch tân cymunedol cynyddol y Gwasanaeth. Efallai, mewn ymateb i negeseuon diogelwch a gyfathrebwyd gan y gwasanaeth, fod mwy o danau yn cael eu hadrodd nawr. Roedd hefyd yn galonogol adrodd fod llai o brif danau bwriadol a thanau eilaidd bwriadol wedi eu cofnodi nag yn y flwyddyn flaenorol. Efallai bod y gostyngiad yma'n arwydd fod gwaith y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn dechrau dwyn ffrwyth. Hysbysodd swyddogion y Panel fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi ei fwriad i

barhau i ariannu'r Tri Thîm Lleihau Llosgi Bwriadol yng Nghymru am gyfnod pellach o dair blynedd. Roedd hefyd yn bleserus nodi, hyd yn hyn eleni, fod llai o bobl wedi colli eu bywydau mewn tanau damweiniol yn y cartref nag yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Yn anffodus, roedd y nifer o anafiadau a ddioddefwyd mewn tanau damweiniol yn y cartref ar gynydd unwaith eto.

Er, yn gyffredinol, fod yr ystadegau yn ymwneud â larymau diangen yn galonogol, roedd yn siomedig nodi fod y nifer o larymau diangen dderbyniwyd gan systemau larwm tân awtomatig yn dangos cynnydd ar ffigwr y flwyddyn flaenorol. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Is-Gadeirydd, fe gynghorodd y swyddogion y Panel fod polisi newydd gan yr Awdurdod, oedd yn dynodi rhai sefydliadau penodol fel 'troseddwyr parhaus', yn golygu na fyddai'r 'troseddwyr' yma yn derbyn ymateb yn seiliedig ar eu risg oni bai fod caniad y larwm yn cael ei ddilyn gan alwad 999. Bydd yn ddiddorol dadansoddi a monitro i weld os yw'r sefydliadau hynny yn ymateb drwy wella cynnal a chadw eu systemau. Fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Rhydychen, oedd â pholisi cadarn iawn yn y maes yma, wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ostwng y mathau yma o alwadau diangen oedd yn ddraen ar adnoddau gwerthfawr.

Tynnodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) sylw'r aelodau at ystadegyn cadarnhaol arall, oedd yn cofnodi fod gan 61% o'r cartrefi oedd y Gwasanaeth wedi mynychu mewn ymateb i alwad tân, larymau mwg gweithredol wedi eu gosod. Roedd y canran yma'n llawer uwch na'r ffigwr perchnogaeth o 46% a gofnodwyd ddim ond 18 mis yn gynharach. Oherwydd llwyddiant ymgyrch archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yr Awdurdod, fe awgrymodd yr Is-Gadeirydd efallai byddai hi'n fuddiol cyflwyno Dangosyddion Perfformiad i gofnodi'r nifer o geisiadau am archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a dderbyniwyd ym mhob chwarter, y nifer sy'n cael eu cyflawni o fewn y cyfnod gweithdroad 28 diwrnod gosodedig a'r nifer sy'n dal heb eu cyflawni ar ôl 28 diwrnod. Cytunodd swyddogion â'r farn yma ac awgrymu byddai cael dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer y maes yma o waith hefyd yn cynorthwyo Rheolwyr Diogelwch y Siroedd i reoli eu llwyth gwaith.

Fe ymddiheurodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) nad oedd y ffigyrau oedd yn gysylltiedig ag absenoldeb salwch ar gyfer ail chwarter y flwyddyn adrodd ar gael. Sicrhaodd aelodau byddai ffigyrau cyfredol ar gael pan y cyflwynid yr adroddiad nesaf. Mewn perthynas â pherfformiad yr awdurdod wrth dalu anfonebau diddadl am nwyddau masnachol o fewn 30 diwrnod, rhoddwyd gwybod i aelodau, er y prinder staff, fod yr Awdurdod yn dangos gwelliant sylweddol yn y maes hwn o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Fe ofynnodd y Cynghorydd E F Evans i swyddogion ailwirio'r tueddiadau ar gyfer y cyfartaledd 3 mlynedd a ddangoswyd ar y graff mewn perthynas â'r Dangosydd Perfformiad yma i sicrhau fod ei safle mewn cysylltiad â mis Rhagfyr yn gywir.

***Penderfynwyd:* - nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

**10) Estyniadau i Dâl Salwch**

Fe gyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn hysbysu aelodau o'r penderfyniadau a gymerwyd gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd parthed estyniadau tâl salwch.

***Penderfynwyd:* - nodi'r adroddiad.**

**11) Materion Brys.**

Dim.

**12) Dyddiad(au) cyfarfodydd yn y dyfodol**

Fe gynghorodd y Cadeirydd yr aelodau ei fod o'r farn, yng ngoleuni cyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y setliad Grant Cynnal Refeniw dros dro i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer 2008/09 a'r setliadau amcangyfrifedig ar gyfer y blynyddoedd dilynol, fod y cynigion oedd yn cael eu cyflwyno o dan yr eitem nesaf o fusnes yn haeddu trafodaeth bellach gan holl aelodau'r Awdurdod. Teimlai fod hyn yn bwysig iawn o gofio'r ffaith y disgwylid i'r Awdurdod osod ei gyllideb ar gyfer 2008/09 yn ei gyfarfod ar 17eg Rhagfyr 2007.

***Penderfynwyd:* - byddai cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei gynnal am 10 y bore, ddydd Mawrth, 11eg Rhagfyr 2007, i drafod y cynigion oedd i'w cynnwys yn y gyllideb ddrafft a gyflwynid i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 17eg Rhagfyr 2007.**

Gohiriwyd y penderfyniad ar ddyddiad cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol tan y Cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 11eg Rhagfyr 2007.

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau yr argymhellid i'r eitemau o fusnes oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod gael eu trafod heb bresenoldeb y cyhoedd na'r Wasg.

***Penderfynwyd:* - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod tra yr ystyrid yr eitemau canlynol o fusnes gan ei fod yn debygol y byddai gwybodaeth oedd yn eithriedig yn cael ei ddatgelu iddynt fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.**

**RHAN II**

Roedd yr adroddiad canlynol a gyflwynwyd o dan Ran II wedi ei eithrio rhag datgeliad o dan baragraffau 14 ac 15 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**13) Cynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2008/09** (eitem 5 yn flaenorol)

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i aelodau ar y pwysau ariannol oedd wedi eu hamlygu i'r rhai hynny oedd yn bresennol yn y cyfarfod Anffurfiol o'r Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd ar 5ed Tachwedd 2007. Fe eglurodd fod yr adroddiad yn cyflwyno i'r Panel opsiynau posib ar gyfer eu cynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2008/09 a chanlyniadau potensial y cynigion yma.

Fe bwysleisiodd y Prif Swyddog Tân nad oedd disgwyl i aelodau ffurfio argymhelliad na dod i benderfyniad yn y cyfarfod presennol ar y cynigion a ddylid eu cynnwys yng nghyllideb drafft 2008/09. Yn hytrach, gofynnwyd i aelodau roi ystyriaeth ofalus i ba gynigion a ellid eu cynnwys yn y gyllideb ddrafft, gan gofio'r setliad Grant Cynnal Refeniw tynn iawn gyhoeddwyd i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru. Roedd y cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd i bob cyngor yn amrywio rhwng 1.1% a 2.5% gan roi cynnydd ar gyfartaledd o 1.88% ar draws ardal Gogledd Cymru, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 2.3%. Dywedodd y Clerc wrth y Panel fod gan yr Awdurdod yr hawl i osod y lefel o gyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol ar ba bynnag lefel y teimlai yr oedd ei angen er mwyn darparu ei wasanaethau, ond fe atgoffodd yr aelodau, fel yr awdurdodau lleol, fod rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub fod yn bwyllog ac yn graff wrth osod ei gyllideb a gwneud pob ymdrech i osgoi cynyddiadau beichus, oherwydd byddai'r awdurdodau hynny oedd wedi derbyn setliadau Grant Cynnal Refeniw oedd yn uwch na'r cyfartaledd yn cael trafferth cwrdd â'u holl rwymedigaethau dros y flwyddyn nesaf.

Roedd yr aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod Anffurfiol o'r Awdurdod Tân ac Achub ar y 5ed Tachwedd wedi derbyn briff ar y pwysau ariannol a'r penderfyniadau anodd oedd o'u blaenau wrth i'r Awdurdod geisio cael cydbwysedd rhwng mantoli ei arian a gwella cyflwyno ei wasanaethau. Aeth swyddogion ymlaen i fanylu'r pwysau cyllidebol oedd yr Awdurdod yn wynebu ac a restrwyd yn yr adroddiad. Tynnwyd sylw'r aelodau i'r goblygiadau posib o beidio â chwrdd â'r pwysau yma ac o beidio â chyflwyno'r dyheadau oedd yr Awdurdod wedi eu gosod yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2008/09. Roedd y pwysau yma yn amrywio o gostau anochel oherwydd penderfyniadau cenedlaethol a chyfarwyddebau llywodraeth ganolog, megis dyfarniadau cyflog, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a chyfraniadau pensiwn y System Dyletswydd Rhan Amser, i bwysau lleol yn gysylltiedig ag ariannu cyfalaf a chost a maint gwaith diogelwch cymunedol ychwanegol. Cyflwynwyd opsiynau i'r aelodau o feysydd lle gellid gwneud arbedion effeithiolrwydd a'u defnyddio i wrthbwyso'r pwysau mewn meysydd eraill. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys cyflenwadau, criwio peiriannau arbennig a ffioedd galw allan y system dyletswydd rhan amser. Rhoddwyd ffigyrau amcangyfrifedig mewn perthynas â'r pwysau a restrwyd ac ar yr arbedion y gellid eu sylweddoli. Fe drafododd yr aelodau'r cynigion oedd wedi eu cynnwys

yn yr adroddiad am beth amser. Nid oeddynt ar hyn o bryd am ailystyried y penderfyniadau ar lefelau gwasanaeth yr oedd yr Awdurdod wedi eu cymryd yn y misoedd diwethaf, er y gellid edrych arnynt eto fel rhan o'r broses Lleihau Risg. Cytunwyd i holi eu hawdurdod eu hunain am y lefel o gynnydd fyddai'n cael ei weld yn dderbyniol yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac i adrodd canlyniadau eu hymholiadau yn y Cyfarfod Arbennig ar 11eg Rhagfyr 2007.

***<u>Penderfynwyd</u>: - fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub ar 11eg Rhagfyr yn cynnwys:***

- ***i. y wybodaeth ganlynol o'r adroddiad a drafodwyd yn y cyfarfod presennol: Opsiynau 1 a 2 yn gysylltiedig â'r Dyfarniadau Cyflog; Opsiwn 1 yn gysylltiedig â Datblygiad Proffesiynol Parhaus; y manylion yn ymwneud â'r Cynllun Pensiwn y System Dyletswydd Rhan Amser; y manylion am bwysau Ariannu Cyfalaf (yn cynnwys gwybodaeth fanwl bellach ar y gwaith ailfodelu sydd wedi ei amserlennu ar gyfer pum gorsaf dân, ni ddylai'r cytundebau ar eu cyfer gael eu gadael yn y cyfamser); y tri opsiwn sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol ynghyd â dadansoddiad o gostau ar gyfer pob un o'r opsiynau yma a manylion o'r nifer o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref sydd wedi eu cwblhau gan orsafoedd eleni yn cynnwys y categori o weithiwr sydd wedi ymgymryd â'r archwiliadau yma; a'r tri maes sydd wedi eu clustnodi fel meysydd posib lle gellir gwneud 'arbedion';***
- ***ii. manylion o gyfanswm y nifer o staff cefnogi gyflogir gan yr Awdurdod, yn cynnwys dadansoddiad o'r nifer a gyflogir o fewn pob adran, ynghyd â manylion o unrhyw effeithiolrwydd a ellir eu gwneud os fyddai rhai meysydd penodol o waith yn cael eu ffynonellu allan;***
- ***iii. manylion o'r nifer o geir sy'n cael eu prydlesu gan yr Awdurdod, rolau'r personél sy'n gyrru ceir a brydlesir, y gwaith maen nhw'n wneud pan fyddant yn defnyddio'r ceir yma a'r nifer o faniau mae'r Awdurdod yn berchen/prydlesu a'u defnydd;***
- ***iv. yr adroddiad drafft i ddynodi'r lefel o wasanaeth y gallai'r Awdurdod ei ddarparu gyda chynnydd o 3% yn ei gyllideb; a***
- ***v. rhestr o'r cyfraniadau dros dro fyddai'n cael eu codi ar bob awdurdod cyfansoddol, y cynydd yma i'w ddangos yn nhermau canran ac yn ariannol.***

Roedd gweddill yr adroddiadau oedd wedi eu cyflwyno o dan fusnes Rhan II wedi eu heithrio rhag datgeliad o dan baragraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**13a) Y Diweddaraf am y Penodiadau Statudol a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn manylu'r adolygiad ymgymerwyd o'r penodiadau statudol a'r cytundebau lefel gwasanaeth, yr oedd y cytundebau yn dod i ben ar 31ain

Mawrth 2008. Aeth ymlaen i egluro i'r aelodau ddyletswyddau, rôl a swyddogaethau'r penodiadau statudol, sef y Clerc/Swyddog Monitro a Thrysorydd i'r Awdurdod. Cynghorodd y Prif Swyddog Tân y Panel, yn ei farn ef, ers i'r Awdurdod gael ei sefydlu, roedd yr arfer cyfredol o benodi'r swyddogion statudol o du allan i'r Gwasanaeth wedi gweithio'n dda. Roedd yr arfer yma'n rhoi cyngor annibynnol dibynadwy a gwerthfawr i'r Awdurdod ac i'r Gwasanaeth ac yn gymorth i ddangos rhaniad clir o gyfrifoldeb rhwng yr Awdurdod a'r Gwasanaeth.

Cynghorwyd yr aelodau fod y Trysorydd wedi dangos diddordeb i barhau yn y swydd, tra bod Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy wedi mynegi diddordeb mewn parhau i ddarparu gwasanaethau ariannol a chyflogres i'r Awdurdod drwy gytundeb lefel gwasanaeth. Yn ofidus, roedd y Clerc/Swyddog Monitro wedi hysbysu'r Awdurdod na fyddai'n mynegi diddordeb mewn parhau yn y swydd. Roedd copi o'i lythyr at y Prif Swyddog Tân yn nodi'r rhesymau pam nad oedd am barhau yn y swydd wedi ei atodi i'r adroddiad. Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Clerc am ei wasanaethau a'i waith diwyd ar ran yr Awdurdod dros y chwe mlynedd diwethaf.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi hysbysu na fyddai'n mynegi diddordeb i barhau i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i'r Awdurdod o Ebrill 2008. Hyd yma, nid oedd yr un awdurdod cyfansoddol arall wedi mynegi diddordeb mewn darparu un ai gwasanaethau'r Clerc/Swyddog Monitro neu wasanaethau cyfreithiol i'r Awdurdod, er y disgwylid am ymateb swyddogol gan un o'r awdurdodau unedol.

Roedd gwasanaethau pensiwn yr Awdurdod, i bersonél llywodraeth leol a gweithredol, yn cael eu darparu gan Gyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd. Gan fod staff cefnogi yn aelodau o Gronfa Pensiwn Clwyd, wedi ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint, ni fyddai'n bosib i'r Awdurdod edrych am ddarparwr arall i weinyddu'r ddau gynllun pensiwn.

Mewn ymateb i gwestiwn, hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau o gost pob un o'r penodiadau statudol presennol a'r cytundebau lefel gwasanaeth. Hysbysodd hefyd y byddai telerau a chostau bob penodiad a chytundeb lefel gwasanaeth angen eu hail drafod cyn i'r penodiadau gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod. Roedd yr Is-Gadeirydd o'r farn gan fod cylch gwaith y Panel Gweithredol nawr yn cynnwys materion archwilio, yn dilyn gwaith pellach gan y Prif Swyddog Tân i ffynonellau darparwyr amgen ar gyfer y swydd o Glerc/Swyddog Monitro a gwasanaethau cyfreithiol ac ail drafod telerau ac amodau'r penodiad statudol arall a'r cytundebau lefel gwasanaeth, dylid cyflwyno ei gynigion i'r Panel Gweithredol er mwyn iddo ffurfioli argymhelliad mewn cysylltiad â'r penodiadau i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub.

***<u>Penderfynwyd:</u> -***

***i. yng ngoleuni llythyr Ian Miller, ac yn absenoldeb unrhyw fynegiannau o ddiddordeb gan unrhyw awdurdodau unedol eraill,***

***i awdurdodi'r Prif Swyddog Tân i geisio, ac i gynnig ffynhonnell amgen ar gyfer y ddarpariaeth o Glerc/Swyddog Monitro a Gwasanaethau Cyfreithiol;***

ii. ***yn amodol ar ail drafod telerau'r cytundeb lefel gwasanaeth yn llwyddiannus, fod penodiad statudol y Trysorydd a chytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Ariannol yn parhau gyda Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy;***

iii. ***fod y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer y Ddarpariaeth Pensiwn yn parhau gyda Chyngor Sir y Fflint; ac***

iv. ***yn dilyn cwblhau'r gweithdrefnau uchod, fod y Prif Swyddog Tân yn cyflwyno ei gynigion mewn perthynas â'r swyddogaethau yma a'r cytundebau lefel gwasanaeth i'r Panel Gweithredol er mwyn iddo ffurfioli argymhelliad mewn perthynas â'r penodiadau ar gyfer cadarnhad yr Awdurdod Tân ac Achub.***

**13) Y Diweddaraf am Raglen Cyfalaf 2007/08**

Cyn cychwyn yr eitem hon o fusnes, atgoffodd y Clerc gynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam o'r angen iddynt ddatgan diddordeb yn yr eitem oedd yn gysylltiedig ag adleoli Gorsaf Dân Wrecsam. Er na chymerid pleidlais ar y mater yn ystod y cyfarfod presennol, ni fyddai cynghorwyr o Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam yn cael cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad ar y mater. Datganodd y Cynghorwyr G M Craddock, E C George a M Williams ddiddordeb yn yr eitem ac ildio o'r drafodaeth. Mewn ymateb i ymholiadau os oedd angen i gynrychiolwyr Sir y Fflint neu Ynys Môn ddilyn yr un weithdrefn mewn cysylltiad â'r cynigion oedd yn ymwneud â gorsafoedd tân Glannau Dyfrdwy a Llangefni, yn dilyn eglurhad o'r materion oedd yn ymwneud â'r ddau brosiect yma cynghorodd y Clerc nad oedd angen i'r cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yma ddatgan diddordeb gan nad oedd gan yr awdurdodau lleol unrhyw beth i'w wneud â'r datblygiadau dan sylw.

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn diweddaru'r aelodau ar raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Cyfleusterau ar gyfer 2007/08. Roedd rhai o'r prosiectau oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad wedi eu trafod eisoes fel rhan o'r eitem fusnes 'Cynigion ar gyfer Cyllideb Drafft 2008/09', pryd yr atebwyd cwestiynau'r aelodau gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) a Phennaeth yr Adran Rheoli Cyfleusterau. Eglurodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethu) nifer o faterion oedd yn ymwneud â rhai o'r prif brosiectau oedd wedi eu rhestru yn ei adroddiad a chynghori o'r cynnydd hyd yma ar y prosiectau hyn.

***Penderfynwyd: - nodi cynnwys yr adroddiad.***

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 y prynhawn.